Cymerodd y bechgyn ran yng nghystadleuaeth pel droed pump bob ochr yr Urdd. Wedi curo tim o Ysgol Rhydypennau a Llanilar collwyd yn y gem derfynol yn erbyn Pen-llwyn. Yn y gystadleuaeth rygbi saith bob ochr curwyd timoedd o'r Borth, Llanilar a Myfenydd ond collwyd unwaith eto'n erbyn tim o Ysgol Pen-llwyn. Chwaraeodd y bechgyn yn dda fel tim a rhaid yw eu llongyfarch am hynny. Bu nifer o'r bechgyn ar faes Blaendolau'n ymarfer ac yn cael hyfforddiant mewn chwarae pel droed un bore.lau a da yw deall bod chwarae David Ian Thomas wedi mynnu sylw'r hyfforddwyr.